**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

**Jayne Bryant AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar**
**Minister for Mental Health and Early Years**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/MA LN 5488 24

Buffy Williams MS
Chair Children, Young People and Education Committee
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Mehefin 2024

Annwyl Buffy,

Fel y gofynnwyd, dyma anfon atoch y diweddariadau i argymhellion adroddiad Pwyllgor CYPE ar **Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch** i'w rhannu gyda'r pwyllgor.

**Argymhelliad 28**

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r farn y dylai cofrestru gyda meddyg teulu fod mor syml â phosibl ac y dylai'r broses hon fod yn gyson ledled Cymru i sicrhau tegwch mynediad.

Ar hyn o bryd yng Nghymru ceir ffurflen GMS1 safonol i'w llenwi i gwblhau'r broses gofrestru gyda phractis meddyg teulu. Gall unrhyw un sy'n cael anhawster cofrestru gyda meddyg teulu gysylltu â'u Bwrdd Iechyd Lleol a fydd yn pennu practis ar ei gyfer. Mae Byrddau Iechyd Lleol hefyd yn darparu gwasanaethau cyfieithu dros y ffôn i feddygfeydd teulu ledled Cymru i gefnogi hygyrchedd.

Ym mis Hydref 2023, daeth Contract Unedig newydd y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i rym. Mae'r contract newydd hwn yn symleiddio a gwneud yn fwy eglur pa gwasanaethau y mae'n rhaid i bob practis yng Nghymru eu darparu. Mae Rheoliadau 2023, sy'n sail i'r contract hwn, hefyd yn nodi gofynion ynghylch cofrestru, gan gynnwys:

- caiff unrhyw un yng Nghymru gofrestru gyda meddyg teulu i gael triniaeth;
- nid oes angen cyfeiriad sefydlog neu ddull adnabod i gofrestru; a
- Gall unrhyw un sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu gael presgripsiynau am ddim.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r newidiadau cytundebol hyn yn ymsefydlu yn y system ar hyn o bryd, ac mae'n bwysig bod gwaith ymchwil i unrhyw newidiadau pellach – gan gynnwys dichonoldeb cofrestru ar-lein - yn cael ei gynnal ar bwynt priodol i gasglu gwelliannau sy'n digwydd o ran mynediad at wasanaethau meddygon teulu ac adnoddau mynediad digidol. Byddwn yn monitro'r broses o roi'r contract ar waith yn ystod 2024-25, gan gomisiynu gwaith ymchwil ar brofiadau cleifion o fynediad ar y pwynt a fyddai'n caniatáu ystyried effaith y newidiadau cytundebol hyn.

**Argymhelliad 29**

Trosglwyddo cofnodion meddygol yn electronig o Feddyg Teulu i Feddyg Teulu (GP2GP) - Yn gynharach eleni gorffennodd GIG Cymru roi ar waith 'Negeseuon Mawr' GP2GP ar gyfer systemau clinigol yr holl bractisau Meddygon Teulu. Y swyddogaeth sydd ar ôl i'w rhoi ar waith yn y chwarter dau eleni yw trosglwyddo cofnodion A-B-A, h.y. pan fydd claf yn dychwelyd ac yn ailgofrestru gyda'i bractis blaenorol. Mae datrysiad ar gyfer y dasg o drosglwyddo cofnodion GP2GP 'ar draws ffiniau' yn cael ei archwilio mewn partneriaeth â GIG Lloegr a’r cyflenwyr systemau priodol, fodd bynnag, mae’n annhebygol y bydd datrysiad trawsffiniol ar gael gyda Lloegr cyn 2026.

Os oes gennych chi, neu aelodau o'ch Pwyllgor, unrhyw gwestiynau penodol yn y cyfamser, byddwn yn hapus i ddarparu gwybodaeth ychwanegol lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

**Jayne Bryant AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a’r Blynyddoedd Cynnar
Minister for Mental Health and Early Years